# Wylfa Decommissioning Site Report

## Site Stakeholder Group Meeting
## 19 March 2020

## Stuart Law
## Closure Director



## Site Closure Director's Summary (September 2019 – March 2020)

The headline news is that Wylfa completed its 'Mission 19' defuelling programme on target and the ONR accepted the site fuel free on 2 October 2019, 29 days ahead of the 31 October target date.

The 19 September was a day of mixed emotions for the workforce as they saw the last fuel flask leave for Sellafield bringing an end to Wylfa defuelling operations.




Gwen Parry-Jones, Magnox's CEO, said: "As the final Magnox site to defuel, this marks a significant landmark for Magnox as a whole in carrying out our mission to safely decommission our fleet and marks a new focus on the next phase for the whole company."

"I have been extremely impressed by the innovation, hard work and commitment of the team to safely reach an important stage in the lifecycle of the plant."

The site transitioned into its decommissioning phase on 1 December 2019, after dispatching the last of 586 fuel flasks to Sellafield in September, bringing a safe and compliant end to defuelling operations at the biggest of the UK's first generation reactors.

During its defuelling campaign the site removed almost twice as much fuel than at other Magnox sites, in about the same time with a record week seeing eight flasks shipped in one week.

In addition, more than 100 fuel route equipment improvements were delivered by staff to make the process quicker, slicker and more reliable to accomplish the mission.

A total of 87,890 fuel elements were handled by staff; equalling around 350,000 safe handling operations which were all completed with no significant injuries or events.

This herculean achievement would not have been possible without extensive preparatory work at the site, with key focuses on risk management and completing fuel-free verification for both reactors, the secondary dry store cells and the primary dry store cells.


I am so proud of the contribution the entire workforce made to reduce the UK's nuclear hazard. The site's defuelling phase was a remarkable story of 'ups' and 'downs' but ultimately Mission 19 was achieved by the hard work, commitment and dedication of Wylfa staff.

Our near term focus is now all about hazard reduction, waste management, enabling works to de-plant redundant buildings in preparation for future demolition and removing shift operations. The site's Emergency Preparedness Engineer will be explaining the programme of work that has been conducted to implement 'Operations Shift Transfer' at the meeting.

Wylfa is proud of its heritage, its place in the community, its track record of delivering 232 TwH of electricity to the national grid during almost 45 operational years and its defuelling performance.

### 1.0 Radioactive Waste

A project to define and characterise potential intermediate level waste (ILW) from post operational areas of the reactor equipment buildings and the redundant fuel route is underway. This is a labour intensive process that involves taking samples by various methods such as: swab, cutting away or collecting drilled metal swarf. The samples are then packaged in preparation for testing. If proven to be ILW, this will increase the ILW inventory and will inform the onward strategy being developed to safely retrieve, process, package and store the site's radioactive waste.



This image shows an open precipitator where a plastic drum has been removed, metal swarf taken from drilling the front face. A number of swabs were taken and packaged for sample analysis.

### 2.0 Non-radioactive Waste (including hazardous waste)

Post operational clean out (POCO) is taking place across the plant to reduce risk and hazard by removal, disposal or by treating items or goods as an asset, where they can be redeployed to another facility or sold.

In January, a specialist contractor cleaned out the Sodium Hypochlorite tanks/pipework and removed 25,000 litres of Sodium Hypochlorite solution from the site.

The dry store cell 5 cooling system has been drained of nearly 2,000 litres of glycol & water solution, which was handed over to the waste department for disposal as hazardous waste.

Various gas cylinders have also been removed including 16 water and four Nitrogen.

The project is now planning to remove 60,000 litres of waste liquid from the active incinerator tanks by April.

A campaign to remove legacy waste from mess rooms, offices, stores and plant areas has resulted in over 2 tonnes of waste being removed. In addition 109 tonnes of redundant assets has been disposed of for resale plus the fleet of six flask transporters.

## 3.0 Waste Enablers Project

This project is responsible for providing facilities to manage the site's Lower Active Wastes (LAW) and Higher Active Wastes (HAW) by providing the Waste Operations team with the facilities to handle, size reduce, package and store waste. An optioneering process is underway to determine the most suitable areas, which could include de-planting redundant rooms, expanding existing facilities, or constructing new ones.

Benchmarking visits to Oldbury and Hinkley Point A sites took place in January to understand what facilities they have, how they operate, and what learning we can benefit from.

## 4.0 Plant & Structures

A new Electrical Overlay System is required to change the way electrical power is distributed as a key enabler for the de-plant and demolition projects the site needs to deliver as part of the decommissioning plan.

With a potential two year lead time for the provision of a new supply to the site from Scottish Power, this project will also in parallel prepare the on-site Distribution Infrastructure to accept the supply and distribute around site as required. We are also progressing an opportunity to have a Tri-Party agreement with our neighbours the National Grid who also require a new site supply which will help share the cost of this critical project.

## 5.0 Maentwrog operations

Rainfall between 01/09/19 until 29/02/20 was 1434.5 mm.
February 2020 was a wet month with 345 mm.
November 2019 had 345mm followed by December 2019 at 519.9mm.

Renewable electricity generation during the same period was 50.5 Gigawatt Hours.

## 6.0 Environment, Health, Safety, Security and Quality (EHSS&Q)

**Safety statistics**

Total recorded incident rate (TRIR): 0.00
Days away case rate (DACR): 0.00
No of days since a lost time accident: 605 (05.03.20)




The New Year started with 'Return to Work' stand downs for all employees, agency workers and contractors to focus people's minds on the safe delivery of work following the festive break. All teams were asked to pledge their safety commitments to ensure everyone gets home safe to their families after a day's work.

Magnox' flagship safety campaign Target Zero continues into its 5th year of delivery in 2020 to proactively raise awareness of safety issues on and off sites. Promotions regarding Mental Health, Radiological Protection, Travel Safety, Lifting & Handling and Waste have featured in the campaign during the reporting period.

Defibrillator awareness sessions were held in October by the Welsh Ambulance Service Trust with a paramedic in attendance.

Mandatory safety leadership training for all personnel was rolled out to all Magnox sites to support the delivery of the company's Continuous Safety Improvement Plan. The courses, 'Setting to Work' and 'Undertaking Work' were developed to improve how we deliver work through the Construction Office from a supervisor's perspective and a worker's perspective.

Version 8 of the Wylfa's Environmental Management Plan was published bilingually in December 2018 in accordance with regulatory requirements.




This document provides an update on the details of the agreed mitigation measures to prevent, reduce and, if possible, offset any significant adverse environmental effects of our decommissioning work.

The publication is available to download in English here, or Welsh here. It is also available to read at Anglesey libraries or you can take away a copy from the SSG meeting.

## 8.0 Visits



We were delighted to welcome long standing SSG member Tom Conway and his wife Barbara to site in October for a mini tour. Both Wylfa retirees, they really enjoyed a trip down memory lane and seeing former colleagues.



In February, a Royal Air Force Puma helicopter completed a test landing at the helipad at the north end of the site. The landing was part of military exercises that were being undertaken in the local area. This will probably be one of the last times the helipad will be used as it is no longer claimed as part of our emergency arrangements and will be stood down in the near future.

## 9.0 People

At the end of February, there were 175 employees and one Agency employed worker on site (not including Magnox Support Office staff based at Wylfa).

Since November 15 employees have transitioned to Trawsfynydd, one to Dungeness and one to Oldbury.

Yoga tasting sessions were held in October as part of the Target Zero Mental Health Awareness campaign.

During National Bullying Week 11 – 15 November 2019 the site's Mental Health First Aiders organised an activity themed around '**Change Starts with Us.'** Its aim was to highlight how micro-behaviours can have a big effect over time and why it is important to acknowledge that small things we say and do day to day can add to creating a more inclusive and respectful organisational culture.




**For more information and the latest news from Wylfa, visit:**

https://www.gov.uk/government/collections/our-sites
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites

# Adroddiad Safle Datgomisiynu Wylfa

## Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle
## 19 Mawrth 2020

## Stuart Law
## Cyfarwyddwr Cau



## Crynodeb Cyfarwyddwr Cau'r safle (Medi 2019 – Mawrth 2020)

Y prif newyddion yw bod Wylfa wedi cwblhau ei rhaglen symud tanwydd 'Tasg 19' ar y targed a bod yr ONR wedi cyhoeddi bod y safle'n ddi-danwydd ar 2 Hydref 2019, 29 diwrnod cyn y dyddiad targed o 31 Hydref.

Roedd 19 Medi yn ddiwrnod o deimladau cymysg i'r gweithlu wrth iddynt weld y fflasg tanwydd olaf yn gadael i fynd i Sellafield, gan ddod â'r gwaith o symud tanwydd o'r Wylfa i ben.




Dywedodd Gwen Parry-Jones, Prif Weithredwr Magnox: "Fel safle olaf Magnox i symud tanwydd, mae hon yn garreg filltir bwysig i Magnox gyfan o ran cyflawni ein cenhadaeth i ddatgomisiynu ein fflyd yn ddiogel ac mae'n rhoi ffocws newydd ar y cam nesaf i'r cwmni cyfan."

"Mae arloesedd, gwaith caled ac ymrwymiad y tîm wedi creu argraff fawr arnaf er mwyn cyrraedd cam pwysig yng nghylch oes y safle yn ddiogel."

Dechreuodd y safle ar y cyfnod datgomisiynu ar 1 Rhagfyr 2019, ar ôl anfon yr olaf o 586 o fflasgiau tanwydd i Sellafield ym mis Medi, gan ddod â'r gwaith o symud tanwydd adweithyddion cenhedlaeth gyntaf mwyaf y DU i ben yn ddiogel mewn modd oedd yn cydymffurfio.

Yn ystod ei ymgyrch i symud tanwydd, symudodd y safle bron ddwywaith cymaint o danwydd nag ar safleoedd Magnox eraill, o fewn tua'r un amser gan gludo cynifer ag wyth o fflasgiau mewn un wythnos.

Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd mwy na 100 o welliannau i offer symud tanwydd gan staff er mwyn gwneud y broses yn gyflymach, yn fwy slic ac yn fwy dibynadwy.

Proseswyd cyfanswm o 87,890 o elfennau tanwydd gan staff, sy'n gyfystyr â thua 350,000 o gamau gwaith diogel. Cwblhawyd y rhain i gyd heb unrhyw anafiadau neu ddigwyddiadau o bwys.

Ni fyddai'r dasg enfawr hon wedi bod yn bosibl heb waith paratoadol helaeth ar y safle, gyda ffocws allweddol ar reoli risg a chwblhau archwiliadau i wirio nad oedd tanwydd ar ôl yn y ddau adweithydd, y celloedd storfa sych eilaidd a'r prif gelloedd storfa sych.


Rwyf mor falch o'r cyfraniad a wnaed gan y gweithlu cyfan i leihau peryglon niwclear y DU. Roedd y gwaith o symud tanwydd o'r safle'n gyfnod amrywiol ond yn y pen draw cyflawnwyd Tasg 19 drwy waith caled, ymrwymiad ac ymroddiad staff Wylfa.

Mae’r ffocws presennol bellach ar leihau peryglon, rheoli gwastraff, hwyluso gwaith i symud offer o adeiladau diangen er mwyn paratoi tuag at eu dymchwel yn y dyfodol a chael gwared ar batrwm gwaith shifft.  Bydd Peiriannydd Parodrwydd am Argyfwng y safle yn esbonio'r rhaglen waith a wnaed i weithredu 'Trosglwyddo Gwaith Shifftiau’ yn y cyfarfod.

Mae Wylfa'n falch o'i threftadaeth, ei lle yn y gymuned, ei hanes o ddarparu 232 TwH o drydan i'r grid cenedlaethol yn ystod bron i 45 o flynyddoedd o gynhyrchu trydan a'i berfformiad o ran symud tanwydd.

### 1.0 Gwastraff Ymbelydrol

Mae prosiect yn mynd rhagddo i ddiffinio a nodweddu gwastraff lefel ganolradd (ILW) o ardaloedd ôl-weithredol o adeiladau offer adweithiol a'r llwybr tanwydd segur. Mae hon yn broses sy’n galw am lawer o waith, sy'n golygu cymryd samplau trwy ddulliau amrywiol megis: swab, torri i ffwrdd neu gasglu naddion metel wedi'i ddrilio. Yna caiff y samplau eu pecynnu yn barod ar gyfer y profion. Os profir ei fod yn ILW, bydd hyn yn cynyddu rhestr eiddo'r ILW ac yn llywio'r strategaeth a ddatblygir yn y dyfodol er mwyn adfer, prosesu, pecynnu a storio gwastraff ymbelydrol y safle yn ddiogel.



Mae'r llun hwn hon yn dangos dyfais gwaddodi agored lle mae drwm plastig wedi cael ei dynnu, a naddion metel wedi'u cymryd trwy ddrilio'r wyneb blaen. Cymerwyd nifer o swabiau a'u pecynnu ar gyfer dadansoddi sampl.

### 2.0 Gwastraff nad yw'n Ymbelydrol (gan gynnwys gwastraff peryglus)

Mae'r cyfnod clirio ar ôl gweithredu (POCO) yn digwydd ar draws y safle i leihau risg a pheryglon trwy dynnu, gwaredu neu drwy drin eitemau neu nwyddau fel ased, lle gellir eu hadleoli i gyfleuster arall neu eu gwerthu.

Ym mis Ionawr, fe wnaeth contractwr arbenigol lanhau'r tanciau a'r pibellau Sodiwm Hypoclorit a thynnu 25,000 litr o hydoddiant Sodiwm Hypoclorit o'r safle.

Draeniwyd bron i 2,000 litr o hydoddiant dŵr a glycol o’r system oeri cell 5 y storfa sych, a drosglwyddwyd i'r adran wastraff i'w waredu fel gwastraff peryglus.

Hefyd tynnwyd gwahanol silindrau nwy gan gynnwys 16 silindr dŵr a phedwar Nitrogen.

Erbyn hyn, mae'r prosiect yn bwriadu cael gwared ar 60,000 litr o hylif gwastraff o danciau'r llosgydd gweithredol erbyn mis Ebrill.

Mae ymgyrch i gael gwared â gwastraff etifeddol o ystafelloedd cyfarfod, swyddfeydd, storfeydd ac ardaloedd peiriannau wedi arwain at symud dros ddwy

dunnell o wastraff. Yn ogystal â hyn, mae 109 o dunelli o asedau diangen wedi'u gwaredu i'w hailwerthu yn ogystal â'r fflyd o chwech o gludwyr fflasgiau.

### 3.0 Prosiect Hwyluswyr Gwastraff

Mae'r prosiect hwn yn gyfrifol am ddarparu cyfleusterau i reoli Gwastraff Gweithredol Is y safle (LAW) a Gwastraff Gweithredol Uwch (HAW) drwy roi'r cyfleusterau i'r Tîm Gweithrediadau Gwastraff drin, lleihau maint, pecynnu a storio gwastraff. Mae proses opsiwneiddio yn mynd rhagddi i bennu'r ardaloedd mwyaf addas, a allai gynnwys symud offer o ystafelloedd diangen, ehangu cyfleusterau sy'n bodoli eisoes, neu adeiladu rhai newydd.

Cynhaliwyd ymweliadau meincnodi â safleoedd yn Oldbury a Hinkley Point A ym mis Ionawr i ddeall pa gyfleusterau sydd ganddynt, sut maent yn gweithredu, a pha ddysgu y gallwn fanteisio arno.

### 4.0 Peiriannau a Strwythurau

Mae angen System Drydan newydd er mwyn newid y ffordd y caiff pŵer trydanol ei ddosbarthu i hwyluso’r prosiectau dymchwel a symud offer y mae angen i'r safle eu darparu fel rhan o'r cynllun datgomisiynu.

Gydag amser arweiniol o ddwy flynedd o bosibl ar gyfer darparu cyflenwad newydd i'r safle gan Scottish Power, bydd y prosiect hwn hefyd, ar yr un pryd, yn paratoi'r Seilwaith Dosbarthu ar y safle i dderbyn y cyflenwad a'i ddosbarthu o amgylch y safle yn ôl y gofyn. Rydym hefyd yn datblygu cyfle i gael cytundeb Tri-Pharti gyda'n cymdogion y Grid Cenedlaethol sydd hefyd angen cyflenwad safle newydd a fydd yn helpu i rannu cost y prosiect allweddol hwn.

### 5.0 Gweithrediadau Maentwrog

Y glawiad rhwng 01/09/19 tan 29/02/20 oedd 1434.5 mm.
Roedd Chwefror 2020 yn fis gwlyb gyda 345 mm.
Ym mis Tachwedd 2019 cafwyd 345mm ac yna ym mis Rhagfyr 2019 cafwyd 519.9mm.

Y trydan adnewyddadwy a gynhyrchwyd yn ystod yr un cyfnod oedd 50.5 o oriau Gigawatt.

### 6.0 Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch, Diogeledd ac Ansawdd (EHSS&Q)

**Ystadegau diogelwch**
Cyfanswm y gyfradd digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00
Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.00
Nifer o ddyddiau ers damwain amser coll: 605 (05.03.20)




Dechreuodd y Flwyddyn Newydd drwy roi sesiynau 'Dychwelyd i'r Gwaith' i bob gweithiwr, gweithiwr asiantaeth a chontractwyr er mwyn canolbwyntio meddyliau pobl ar weithio’n ddiogel ar ôl gwyliau'r Nadolig. Gofynnwyd i bob tîm gadw at eu hymrwymiadau diogelwch er mwyn sicrhau bod pawb yn mynd adref yn ddiogel at eu teuluoedd ar ôl diwrnod o waith.

Mae ymgyrch diogelwch blaenllaw Magnox - Targed Sero yn dal i gael ei weithredu a bellach ar ei 5ed flwyddyn eleni er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion diogelwch ar safleoedd ac oddi arnynt.

Mae Iechyd Meddwl, Diogelwch Radiolegol, Diogelwch Teithio, Codi a Chario a Gwastraff wedi cael eu hyrwyddo yn yr ymgyrch yn ystod y cyfnod adrodd.

Cynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth diffibriliwr ym mis Hydref gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac roedd swyddog paramedig yn bresennol.

Cyflwynwyd hyfforddiant arweinyddiaeth diogelwch gorfodol ar gyfer pob aelod o staff ar bob safle Magnox i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gwella Diogelwch Parhaus y cwmni. Datblygwyd y cyrsiau, 'Barod i Weithio' a 'Gwneud Gwaith' er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn cyflawni gwaith drwy'r Swyddfa Adeiladu o bersbectif goruchwyliwr a phersbectif gweithiwr.

Cyhoeddwyd fersiwn 8 o Gynllun Rheoli Amgylcheddol Wylfa yn ddwyieithog ym mis Rhagfyr 2018 yn unol â gofynion rheoliadol.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fanylion y mesurau lliniaru y cytunwyd arnynt i atal, lleihau ac, os yw'n bosibl, gwrthbwyso unrhyw effeithiau amgylcheddol anffafriol sylweddol yn sgil ein gwaith datgomisiynu.

Mae'r cyhoeddiad ar gael i'w lawrlwytho yn Saesneg yma, neu'n Gymraeg yma.Mae hefyd ar gael i'w darllen yn llyfrgelloedd Ynys Môn neu gallwch fynd â chopi o gyfarfod yr SSG.

## 8.0 Ymweliadau



Roeddem yn falch iawn o groesawu cyn aelod o'r SSG, Tom Conway, a'i wraig Barbara i'r safle ym mis Hydref ar gyfer taith fach. Mae'r ddau ohonynt bellach wedi ymddeol o'u gwaith yn Wylfa, ac fe wnaethon nhw fwynhau hel atgofion a gweld cyn-gydweithwyr.

Ym mis Chwefror, cwblhaodd hofrennydd Puma yr Awyrlu Brenhinol brawf yn glanio ar y lanfa hofrenyddion ym mhen gogleddol y safle. Roedd y glanio yn rhan o ymarferion milwrol oedd yn cael eu cynnal yn yr ardal leol. Mae'n debyg mai hwn fydd un o'r y troeon diwethaf y defnyddir y lanfa hofrenyddion gan nad yw bellach yn rhan o'n trefniadau argyfwng ac ni fydd defnydd ohono yn y dyfodol agos.



## 9.0 Pobl

Ar ddiwedd mis Chwefror, roedd 175 o weithwyr ac un gweithiwr wedi'i gyflogi o Asiantaeth ar y safle (heb gynnwys staff Swyddfa Cymorth Magnox yn yr Wylfa).

Ers Tachwedd Mae 15 o weithwyr wedi symud i Drawsfynydd, un i Dungeness ac un i Oldbury.




Cynhaliwyd sesiynau blasu ioga ym mis Hydref fel rhan o'r ymgyrch Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl – Targed Sero.

Yn ystod Wythnos Genedlaethol Bwlio 11 – 15 Tachwedd 2019 trefnodd Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl y safle weithgaredd yn seiliedig ar thema **'Mae newid yn dechrau gyda ni'**. Ei nod oedd pwysleisio sut y gall micro-ymddygiadau gael effaith fawr dros amser a pham y mae'n bwysig cydnabod y gall pethau bach yr ydym yn eu dweud ac yn eu gwneud o ddydd i ddydd ychwanegu at greu diwylliant mwy cynhwysol a pharchus o fewn sefydliad.

**Am fwy o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o Wylfa, ewch i:**

https://www.gov.uk/government/collections/our-sites
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites